



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

**Cofnodion Heb eu Cadarnhau o Gyfarfod Pwyllgor Ansawdd,
Diogelwch a Gwella Iechyd Cyhoeddus Cymru
14 Rhagfyr 2022, 10:00
Cynhaliwyd drwy Microsoft Teams ac wyneb yn wyneb yn
Labordy Sgrinio Parc Magden**

Yn Bresennol:		
Kate Eden	(KE)	Cadeirydd y Pwyllgor, Is-gadeirydd y Bwrdd, a Chyfarwyddwr Anweithredol
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) (am ran o'r cyfarfod)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd Cyhoeddus) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd (am ran o'r cyfarfod)
Hefyd yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
John Boulton	(JB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru (am ran o'r cyfarfod)
Angela Cook	(AC)	Dirprwy Gyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio
Sharon Hillier	(SH)	Cyfarwyddwr, Is-adran Sgrinio (ar gyfer eitem 4.6)
Wayne Jepson	(WJ)	Pennaeth Ansawdd, Ymgysylltu a Chydweithio
Olusola Okhiria	(OO)	Cynrychiolydd Undeb Llafur
Chris Orr	(CO)	Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch / Rheolwr Cyffredinol Gweithrediadau a Chyllid (ar gyfer eitem 4.9)
Jessica Taylor	(JT)	Swyddog Gwella Ansawdd a Chymorth Archwilio Clinigol (ar gyfer eitem 3)
Francesca Thomas	(FT)	Pennaeth Gweithio i Wella (ar gyfer eitem 4.1)
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd y Bwrdd

Rhiannon Beaumont-Wood	(RBW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Dr Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr (am ran o'r cyfarfod)
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (am ran o'r cyfarfod)
Paula Mitchell	(PM)	Rheolwr Ansawdd a Llywodraethu Clinigol (ar gyfer eitem 4.7)
Ymddiheuriadau		
Helen Bushell	(HB)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig, Ansawdd, Nyrso a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd
Christopher Thomas	(CT)	Rheolwr Llywodraethu a Rheolwr Cyffredinol
Yr Ysgrifenyddiaeth		
Reanne Reffell	(RR)	Swyddog Cymorth y Bwrdd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 10:00</i>		
QSIC 1/2022.12.14 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau		
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd bawb oedd yn bresennol gan nodi bod cyfarfodydd yn cael eu cynnal wyneb yn wyneb yn y cyfleusterau sgrinio ym Mharc Magden, Llantrisant ac yn electronig. Diolchodd i Sharon Hillier a'r tîm am eu lletygarwch a nododd fod pob Cyfarwyddwr Anweithredol wedi cael gwahoddiad i'r lleoliad i gwrdd â'r timau sgrinio yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw ac ymweld â'r cyfleusterau. Roedd yn gobeithio y byddai hyn yn ddilyniant defnyddiol i'r sesiwn estynedig gyda Sharon Hillier ar adferiad sgrinio a oedd ar yr agenda ar gyfer y Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau uchod. Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gyda chywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu pan gaiff y cofnodion eu cytuno yn y cyfarfod canlynol. Dywedodd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, y byddai'r eitemau yn cael eu trafod mewn trefn wahanol i'r hyn a nodwyd ar yr agenda oherwydd argaeledd y siaradwyr.		
QSIC 2/2022.12.14 Datgan Buddiannau		
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai a ddatganwyd eisoes ar y gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.		

QSIC 3/2022.12.14	Sesiwn Graffu Fanwl - Archwiliad Clinigol ac Ansawdd
Cyflwynodd JT yr Archwiliad Clinigol ac Ansawdd, a oedd yn cynnwys y cefndir, sbardunau allweddol ar gyfer newid, megis Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol a'r Ddeddf Ansawdd/Dyletswydd Gonestrwydd, a nodau gwelliant allweddol ynghylch sicrwydd ansawdd y broses archwilio, dysgu o archwiliadau a mwy o archwilio ar draws y cyfarwyddiaethau. Daeth JT â'r cyflwyniad i ben drwy ddangos templed newydd ar gyfer Archwiliad Clinigol ac Ansawdd a ddefnyddir gan gyfarwyddiaethau, gyda'r bwriad o nodi safonau, arferion gorau, sbardunau ar gyfer gwella ansawdd ac argymhellion. Myfyriodd y Pwyllgor ar ddefnyddioldeb y templed newydd ar gyfer Archwiliad Clinigol ac Ansawdd ac ystyriodd ffyrdd o fynd i'r afael â nifer anghymesur sydd wedi'i ddefnyddio ar draws yr holl feysydd o fewn y Sefydliad. Ystyriodd y Pwyllgor ffyrdd o wella ymwybyddiaeth, megis gweithio ar ffurf matrices, grŵp ymwybyddiaeth o archwilio clinigol wedi'i gynllunio ar gyfer mis Mehefin 2023, yr angen i feithrin diwylliant o welliant, defnyddio naratif Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol fel sbardun allweddol gwerthfawr ar gyfer cyflawni. Gwnaeth y Pwyllgor sylwadau ar ymgysylltu ag Archwilio Cymru a Chanolfan Gydweithredol WHO fel ffordd o bwysleisio'r agwedd ansawdd ynghyd ag archwiliad clinigol, gan roi pwyslais ar y rôl a chwaraeodd o ran rhoi sicrwydd a sbarduno gwelliant fel rhan o ddiwylliant y Sefydliad. Tynnodd RB-W sylw at y ffaith mai JT oedd yr unig adnodd ar gyfer y darn hwn o waith, a byddai angen buddsoddiad pellach i ddarparu adnoddau er mwyn ehangu'n sylweddol y swyddogaeth Archwilio Ansawdd/Glinigol. Nododd RB-W fod gweithio gyda'r Grŵp Arweinwyr Busnes yn allweddol wrth reoli'r gwaith o ymgorffori archwiliad clinigol ac ansawdd o fewn diwylliant y sefydliad, a nododd fod sgysiau wedi dechrau gydag Uned Fusnes y Bwrdd ac Archwilio Mewnol i gysoni gweithgarwch archwilio eraill â'r Cynllun Archwilio Ansawdd/Clinigol. Diolchodd aelodau'r pwyllgor i JT am y trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith, gan nodi'r ffordd systematig yr oedd yn cael ei gynnal o fewn cyd-destun dysgu a diwylliannol, a nododd fod angen ymwreiddio hyn ynseilwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan sicrhau ei fod yn sail i fuddsoddiad a galluogi hynny, ac o fewn cyd-destun Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch y ffordd y rheolwyd y swyddogaeth Archwiliad Clinigol ac Ansawdd o fewn y Sefydliad a chytunodd i ystyried cynnydd pellach ymhen blwyddyn. Camau gweithredu: RBW/LB	
QSIC 4/2022.12.14	Eitemau Er Sicrwydd
QSIC 4.1/2022.12.14	Adroddiad Gweithio i Wella (Ch2)

Cyflwynodd FT adroddiad ail chwarter Gweithio i Wella. Tynnodd sylw at bedwar digwyddiad Adroddadwy yn Genedlaethol ac un digwyddiad Dim Syndod, a oedd o fewn y Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio. Rhoddodd FT sicrwydd i'r Pwyllgor bod ymchwiliadau llawn wedi cael eu cynnal ym mhob achos. Rhoddodd FT drosolwg hefyd o'r cwynion a'r canmoliaethau a ddaeth i law.

Ymhelaethodd FT ar ddarn o waith a oedd wedi'i gynllunio i wella Digwyddiadau'n ymwneud â Sgrinio Serfigol, yn enwedig mewn ardaloedd ble nad oedd y gwasanaethau'n cael eu darparu gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Byddai hyn yn cynnwys ymgysylltu â'r Byrddau Iechyd i nodi materion ac adolygu prosesau, arferion a hyfforddiant cyfredol i wella ansawdd. Awgrymodd JW y dylid cynnal adolygiad o faint y gwaith comisiynu / y fanyleb a'r gofynion ar gyfer sicrwydd ansawdd ac adolygiadau perthnasol mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Camau gweithredu: RBW / MK

Dywedodd RB-W y byddai'r Dangosfwrdd Ansawdd yn cael ei ailgyflwyno mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Gofynnodd SW am sicrwydd bod sylw'n cael ei roi i lesiant staff sy'n cael cwynion. Rhoddwyd sicrwydd bod llesiant y staff yn cael sylw ar bob achlysur a chafodd ei godi hefyd fel rhan o'r pecyn hyfforddi ar gwynion. Cytunodd FT i drafod hyn ymhellach gyda SW y tu allan i'r cyfarfod os oedd angen sicrwydd pellach.

Cododd OS bwyntiau ynghylch yr angen i sicrhau bod staff proffesiynol gofal iechyd yn cael eu hyfforddi mewn materion cyfathrebu, urddas a phreifatrwydd. Cytunodd aelodau'r pwyllgor ar y pwyntiau pwysig hyn, a chytunodd RB-W i drafod y gefnogaeth i staff gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl.

Camau gweithredu: RBW

Rhoddodd RBW wybodaeth i'r Pwyllgor am ddatblygu fframwaith llywodraethu clinigol a fframwaith goruchwyllo clinigol, sef dwy elfen a fyddai'n helpu i gefnogi staff proffesiynol gofal iechyd yn y maes hwn.

Diolchodd y Pwyllgor i FT am y diweddariad, a chafodd **sicrwydd** bod Gweithio i Wella yn cael ei reoli'n effeithiol.

QSIC 4.2/2022.12.14 Rheoli Risgiau

Cyflwynodd RB-W y Gofrestr Risgiau Strategol, gan nodi bod y Bwrdd wedi cynnal trafodaeth fanwl yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd.

Dywedodd TC fod y datganiad sicrwydd ar Risg Strategol 1 yn parhau i fod yn gywir ac aeth ymlaen i roi diweddariad ar gyfarfodydd perthnasol gan ganolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldebau iechyd. Daeth

TC â'i diweddariad i ben drwy nodi'r cyfnod pontio yn dilyn ailwampio'r Strategaeth Hirdymor a'r ystyriaeth o'r angen parhaus am y risg strategol hon.

Gofynnodd JW am sicrwydd ynghylch newid dull y model yn Risg Strategol 2. Cadarnhaodd RB-W fod MK mewn cysylltiad â'r Gyfarwyddiaeth Datblygu Sefydliadol a Phobl ar y mater hwn, ac y byddai papur ar opsiynau i liniaru anawsterau parhaus o ran recriwtio yng Ngogledd Cymru yn cael ei ystyried mewn cyfarfod o'r Tîm Gweithredol ar gyfer Busnes ym mis Ionawr 2023.

Rhoddodd RB-W drosolwg o'r Risgiau Corfforaethol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, a oedd yn cynnwys diweddariad ar: gynnydd y Ddyletswydd Ansawdd a'r Ddyletswydd Gonestrwydd; trawsnewidiad gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru; a materion recriwtio parhaus yn ymwneud â'r Gwasanaethau Microbioleg yng Ngogledd Cymru, a oedd yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl. Cyfeiriodd KE at y gorgyffwrdd gyda'r Pwyllgor hwn mewn perthynas â recriwtio a gofynnodd am ystyried beth oedd barn y Pwyllgor hwn ar faterion perthnasol o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl.

Camau gweithredu: RBW/MK

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod risgiau Strategol a Chorfforaethol y sefydliad sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor yn cael eu rheoli'n briodol

QSIC 4.3/2022.12.14	Adroddiad Rhybuddion (Chwarter 2)
----------------------------	--

Rhoddodd AC drosolwg o Adroddiad Rhybuddion chwarter 2, gan nodi bod y Polisi a'r Weithdrefn Rhybuddion wedi'u diweddaru a'u bod yn destun ymgynghoriad.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod system reoli effeithiol ar gyfer dosbarthu, monitro a chadw cofnodion o rybuddion / hysbysiadau diogelwch ar waith.

QSIC 4.4/2022.12.14	Trefniadau ar gyfer Rheoli Dyfeisiau Meddygol
----------------------------	--

Rhoddodd MK ddiweddariad ar lafar ar y trefniadau Rheoli Dyfeisiau Meddygol. Dywedodd wrth y Pwyllgor fod y Grŵp Rheoli Dyfeisiau Meddygol wedi rhoi mewnbwn i'r broses o adnewyddu'r polisi, yr oedd disgwyl iddo gael ei gymeradwyo a'i gyhoeddi fel polisi dros dro yn y Flwyddyn Newydd. Byddai fersiwn fanylach o'r polisi yn cael ei chyhoeddi ar ôl i reoliadau newydd gael eu datblygu yn 2024. I gloi'r diweddariad rhoddodd MK sicrwydd i'r Pwyllgor ynghylch mecanweithiau sydd ar waith i reoli dyfeisiau meddygol ar lefel leol.

Holodd y Pwyllgor am y defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) fel dyfais feddygol. Dywedodd MK, yn dibynnu ar y defnydd, y gellir dehongli AI fel dyfais feddygol weithiau, felly byddai'r defnydd yn parhau i gael ei fonitro'n ofalus.

Diolchodd y Cadeirydd i MK am y diweddariad, a chafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch rheoli Dyfeisiau Meddygol

QSIC 4.5/2022.12.14 **Egwyl**

QSIC 4.6/2022.12.14 **Diweddariad ar y Gwasanaeth Sgrinio**

Rhoddodd SH drosolwg a diweddariad o'r gwasanaethau sgrinio, gan nodi adfer Sgrinio Coluddion Cymru a Sgrinio Serfigol Cymru, gan amlinellu'r gwaith sydd ar y gweill i adfer gweddill y rhaglenni sgrinio (Bron Brawf Cymru, Ymlediadau Aortig Abdomenol a Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru (DESW)).

Ymhelaethodd SH ar ddatblygiadau ar draws y rhaglenni, a oedd yn cynnwys:

- Cyflwyno profion imiwnogemegol ysgarthion symptomatig (FIT) o fewn Sgrinio Coluddion Cymru;
- Ffocws ar leihau annhegwch a strategaethau allweddol cysylltiedig;
- Y gwaith trawsnewid ar gyfer Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru;
- Y gwaith y gwnaeth Llywodraeth Cymru gais amdano i ddatblygu achosion busnes ar gyfer dwy raglen sgrinio ychwanegol (Sgrinio Canser yr Ysgyfaint wedi'u Targedu a Sgrinio Corfforol Newydd-anedig Cymru).

Aeth y Pwyllgor ymlaen i ystyried:

- Lefel y ddealltwriaeth o'r risg sy'n gysylltiedig â'r oedi presennol gydag adfer gwasanaeth sgrinio'r fron. Dywedodd SH fod model o ddisgwyliad wedi cael ei ystyried, a oedd yn awgrymu ei bod yn debygol iawn y byddai effaith ar yr adferiad. Roedd y system gyfan yn cydweithio i brosesu'r niferoedd mawr o bobl yr oedd angen eu sgrinio a chafwyd cyfathrebu clir y dylai pobl â symptomau gael eu cyflwyno i'r gwasanaeth symptomatig;
- Nodwyd manteision defnyddio apiau o fewn DESW i wella mynediad, a defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn gynnar yn y gwaith o ddatblygu rhaglen newydd Sgrinio'r Ysgyfaint, er y nodwyd rhagfarn flaenorol ynghylch darllen delweddau AI. Cytunodd SH â'r pwyntiau hyn. Nododd MK y gallai fod cyfyngiadau wrth ddefnyddio AI mewn rhaglenni sgrinio oherwydd i'r rhaglenni gael eu nodi a'u hargymell gan UKNSC yn dilyn adolygiad o'r dystiolaeth ddiweddaraf. Croesawodd MK archwiliad parhaus o ymarfer arloesi ac enghreifftiau eraill o ddefnyddio AI mewn rhaglenni sgrinio;
- Pryd oedd disgwyl i'r gwaith tegwch wneud gwahaniaeth amlwg i weithgarwch. Dywedodd SH fod gweithredu'r prawf FIT yn y gwasanaeth sgrinio'r coluddyn wedi cau'r bwlch tegwch i ryw raddau. Roedd gwaith arall ar degwch yn parhau, a dywedodd SH y byddai'n rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ynghylch yr adroddiad tegwch ar ôl ei gwblhau a'i ledaenu i Fyrddau Iechyd;
- Materion staffio yn Bron Brawf Cymru ac a oedd parhad o ran cynllunio busnes. Soniodd SH am y cynllun ar gyfer adnoddau yn y De-ddwyrain yn 2023, a bod problemau gweithlu'r Gogledd yn cael eu hystyried drwy'r Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl;

- Risgiau cyfathrebu yn dilyn newid i gyfnodau sgrinio DESW. Roedd SH yn cydnabod y risg, gan nodi bod y gyfarwyddiaeth wedi derbyn y gwersi a ddysgwyd o'r ymgyrch yn ymwneud â newid y bwlch rhwng amserau Sgrinio Serfigol. Roedd wedi cael ei drafod mewn cyfarfod o'r Cyngor Iechyd Cymunedol, a byddai'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio gyda'r adran Gyfathrebu i geisio lliniaru unrhyw risg. Cytunodd SH i fyfyrion ar hyn yn y risg Gorfforaethol bresennol mewn perthynas â DESW;

Camau gweithredu: SH / M K

- Gwerthuso effaith ar y boblogaeth a myfyrion ar ganlyniadau wrth ystyried tegwch er mwyn blaenoriaethu gwasanaethau. Amlinellodd SH y ffocws arfaethedig ar wella adolygiadau canlyniadau gyda'r Gyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol WHO ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant;
- Myfyriodd JW ar gwestiynau i'r Bwrdd eu hystyried yn y dyfodol fel rhan o'r adolygiad o'r Strategaeth Hirdymor, ynghylch: ystyried y rhaglen dwf; llinellau ystyried cyflawni a chynaliadwyedd o safbwynt strategol; tegwch a chanlyniadau; heriau clinigol, cyfreithiol a chyhoeddus.

Diolchodd y Pwyllgor i SH am y diweddariad cynhwysfawr, a diolchodd i dîm yr adran sgrinio gan gydnabod eu hymdrechion wrth ysgogi gwelliant ynghyd ag adfer y rhaglenni sgrinio.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y gwaith sydd ar y gweill o fewn yr Is-adran Sgrinio i gyflawni, adfer a datblygu'r rhaglenni sgrinio.

QSIC 4.7/2022.12.14

Fframwaith Llywodraethu Clinigol - Diweddariad ar Gynnydd

Cyflwynodd RB-W ddiweddariad ar gynnydd y Fframwaith Llywodraethu Clinigol, gan nodi'r cyfrifoldeb a rennir gyda MK i ddatblygu'r fframwaith a sicrhau cyfatebiaeth rhyngddo ag Ansawdd fel Strategaeth Sefydliadol.

Cyflwynodd WJ y diweddariad ar gynnydd, gan nodi gofynion adrodd newydd y Ddyletswydd Ansawdd a'r angen am fframwaith tryloyw. Aeth PM ymlaen i gyflwyno diweddariad ar ganlyniadau gweithdy 'Safonau a Llinellau Ymholi Allweddol' a'r camau nesaf, a fyddai'n cynnwys gweithdy thema, diffiniad o wasanaethau clinigol, ymgysylltu â threfniadaeth a datblygiad ehangach y fframwaith drafft.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Triongli data, a rhyngweithio dynol mewn perthynas â llywodraethu da ac adnabod risgiau. Roedd RB-W yn cytuno bod risg a ffactorau dynol yn elfennau canolog, a dywedodd MK y byddai'r fframwaith hwn yn helpu i egluro disgwyliadau penodol pobl. Y camau nesaf fyddai gosod safonau (a fyddai'n addas ar gyfer y cyd-destun iechyd cyhoeddus ac

mewn cydweithrediad â staff) a fyddai'n cael eu monitro a'u harchwilio'n rheolaidd er sicrwydd.

- Y goblygiadau o ran adnoddau a chynllunio ar gyfer galluedd a hyfforddi'r gweithlu. Soniodd RB-W a MK am y bwriad i edrych ar aiddylunio/ailbroffilio rolau i sicrhau bod y trefniadau goruchwylio clinigol cywir a'r fframwaith llywodraethu clinigol ar waith i gefnogi cymhwysedd staff.
- Sut roedd y sefydliad yn rhannur hyn a ddysgir yn allanol. Dywedodd MK y byddai'r tîm Diogelu Iechyd yn parhau i fod yn arweinydd system drwy gynnig hyfforddiant a datblygiad i'r system ehangach, fel awdurdodau lleol, byrddau iechyd a chymunedau. Roedd dysgu hefyd yn cael ei rannu ar sail fyd-eang drwy gyhoeddiadau a chyflwyniadau mewn cynadleddau. I ddilyn, soniodd RB-W am yr angen i fapio Iechyd Cyhoeddus Cymru fel system i ddeall lle roedd yr hyn a ddysgwyd yn cael ei ledaenu, ac estynnodd wahoddiad i OO ymgysylltu â WJ a PM. Soniodd AC hefyd am gyfleoedd ar gyfer llwybrau ffurfiol ac anffurfiol i rannu'r hyn a ddysgwyd, gan dynnu sylw at y Rhwydwaith ymgysylltu a phrofiad sydd newydd ei ffurfio. Dywedodd NE fod y maes hwn yn berthnasol i agenda rheoli gwybodaeth y Sefydliadau ar gyfer helpu pobl i ddod o hyd i'n gwaith a sicrhau cyfathrebu da.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** ynghylch y cynnydd o ran datblygiad Fframwaith Llywodraethu Clinigol Iechyd Cyhoeddus Cymru.

QSIC 4.8/2022.12.14	Atal a Rheoli Heintiau Corfforaethol – Diweddariad Canol Blwyddyn
----------------------------	--

Cyflwynodd a rhoddodd AC drosolwg o'r diweddariad canol blwyddyn ar Atal a Rheoli Heintiau Corfforaethol (IPC), gan dynnu sylw at y Gyfarwyddiaeth Ymgysylltu â Phobl a Datblygu Sefydliadol i wella cydymffurfiaeth â hyfforddiant. Rhoddodd AC hefyd drosolwg o ddau risg a dau ddigwyddiad Dim Syndod.

Gofynnodd MK am sicrwydd yn y broses ar gyfer cofnodi anafiadau i staff Iechyd Cyhoeddus Cymru tra'n gweithio o fewn bwrdd iechyd. Cadarnhaodd AC a RB-W y dylid ei briodoli i Iechyd Cyhoeddus Cymru ond y byddent yn ymchwilio i'r broses ac yn cadarnhau gyda MK.

Camau gweithredu: RBW

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod y Grŵp IPC a'r Nyrs Arweiniol ar gyfer IPC (Corfforaethol) yn sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei gyfrifoldebau IPC.

QSIC 4.9/2022.12.14	Adroddiad Iechyd a Diogelwch (Chwarter 2)
----------------------------	--

Cyflwynodd CO Adroddiad Iechyd a Diogelwch Chwarter 2, gan dynnu sylw at y digwyddiadau Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus a dderbyniwyd yn Chwarter 2, a chafwyd dau

ddigwyddiad Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus ychwanegol ers cyflwyno'r adroddiad. Rhoddodd CO sicrwydd i'r Pwyllgor fod sesiwn wedi'i chynnal gyda staff y gwasanaeth Microbioleg i adolygu'r digwyddiadau a chanfod unrhyw welliannau mewn prosesau. Soniodd CO hefyd am ymweliad arfaethedig yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch mewn perthynas â'r priod Reoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus.

Daeth CO â'r diweddariad i ben drwy nodi'r gydymffurfiaeth ar gyfer archwiliadau tân, trydanol a dŵr.

Cafodd y Pwyllgor **sicrwydd** bod mesurau priodol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth ac i fynd i'r afael â meysydd a nodwyd i'w gwella.

QSIC 5 / 2022.12.14

Eitemau i'w Cymeradwyo

QSIC 5.1/2022.12.14

Cofnodion, Cofnod o Gamau Gweithredu a Materion yn Codi o'r Cyfarfod diwethaf

- Ystyriodd a **chymeradwyodd** y pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022 fel cofnodion cywir a gwir o'r cyfarfod;
- Ystyriodd y pwyllgor y diweddariadau i'r cofnod o gamau gweithredu a **chymeradwyodd** gau dau gam gweithredu;
- Nododd y pwyllgor nad oedd unrhyw faterion yn codi.

QSIC 5.2 / 2022.12.14

Polisiâu a Gweithdrefnau i'w Cymeradwyo

Ystyriodd a chymeradwyodd y pwyllgor y Polisi Diogelwch Tân a'r Polisi Rheoli Dŵr.

QSIC 6/2022.12.14

Eitemau i'w Nodi

QSIC 6.1/2022.12.14

Cynllun Gwaith 2022/23 y Pwyllgor

Nododd y pwyllgor gynllun gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2022/23

QSIC 7/2022.12.14

Materion Gweinyddol i Gloi

Nododd y pwyllgor y byddai cais yn cael ei wneud am adborth ychwanegol ar y cyfarfod drwy e-bost.

Nododd y pwyllgor y cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15 Chwefror 2023.

Caeodd KE y cyfarfod drwy ddiolch i SH a staff yr is-adran sgrinio am eu cefnogaeth i gynnal yr ymweliad a'r daith ym Mharc Magden ac roedd yn edrych ymlaen at gwrdd â rhagor o'r staff yn sesiwn y prynhawn sydd ar agor i bob Cyfarwyddwr Anweithredol yn y cyfleuster.

Daeth y sesiwn agored i ben am 13:00